Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad
—
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
—
Economy, Trade, and Rural Affairs Committee

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Y Gwir Anrh Mark Drakeford AS
Y Prif Weinidog

21 Rhagfyr 2022

Annwyl Mark

Ail gyfarfod Cynulliad Partneriaeth Seneddol y DU a’r UE

Fel y byddwch yn gwybod, roedd Cytundeb Masnach a Chydweithredu’r DU a’r UE yn darparu ar gyfer sefydlu Cynulliad Partneriaeth Seneddol y DU a’r UE. Mae’r Cynulliad Partneriaeth Seneddol yn chwarae rhan bwysig o ran goruchwylio gweithrediad y Cytundeb Masnach a Chydweithredu ac unrhyw Gytundebau rhwng y DU a’r UE yn y dyfodol.

Buom yn cynrychioli’r Senedd yn ail gyfarfod Cynulliad Partneriaeth Seneddol y DU a’r UE ar 7-8 Tachwedd. Yn ystod y cyfarfod hwn mabwysiadodd y Cynulliad Partneriaeth Seneddol ei argymhelliad cyntaf i Gyngor Partneriaeth y Cytundeb Masnach a Chydweithredu ar gydweithredu ar ynni: maes o ddiddordeb sylweddol i Gymru. Cynhaliodd hefyd drafodaethau pwysig ar faterion megis Protocol Gogledd Iwerddon, hawliau dinasyddion, ariannu ymchwil ac arloesi, ac effaith Brexit ar artistiaid teithiol.

Yn ystod y cyfarfod bu modd i ni bwysleisio pwysigrwydd y Cytundeb Masnach a Chydweithredu i Gymru a chodi ymwybyddiaeth o rôl Llywodraeth Cymru a’r Senedd o ran ei weithredu. Gwnaethom dynnu sylw hefyd at y gwaith sy’n cael ei wneud yn y Senedd ac yn ehangach yng Nghymru ar y materion hyn.

Rydym yn ysgrifennu i dynnu eich sylw at ein hadroddiad byr ar ganlyniadau'r cyfarfod a'n cynigion ar gyfer cryfhau ymgysylltu rhwng y Senedd a'r Cynulliad Partneriaeth Seneddol yn y dyfodol. Gobeithiwn y bydd y materion a drafodwyd o ddiddordeb i chi ac rydym yn bwriadu parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Lywodraeth Cymru am waith y Senedd gyda'r Cynulliad Partneriaeth Seneddol ac unrhyw feysydd a drafodwyd sydd o bwysigrwydd arbennig i Gymru.

Rydym yn aros yn eiddgar am ymateb Llywodraeth y DU a'r Comisiwn Ewropeaidd i'r argymhelliad a wnaed gan y Cynulliad Partneriaeth Seneddol ac yn gobeithio cael yr ymateb hwn ym mis Ionawr 2023.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Luke Fletcher
Aelod
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig